

Lleisiau a Disgwyliadau Dinasyddion – Sgyrsiau gyda mi.

Mae grwpiau dinasyddion wedi amlygu'r angen i ymarferwyr gynnwys pobl a siarad â nhw ynglŷn â beth sy'n digwydd, a beth yr hoffent hwy ei weld yn digwydd. Mae hyn wedi'i ddefnyddio i lunio'r canllaw/rhestr wirio yma i ymarferwyr.

- ✓ Ydych chi wedi siarad â'r unigolyn am y pryder?
- ✓ Ydych chi wedi gofyn beth hoffent hwy ei weld yn digwydd?
- ✓ Ydych chi wedi siarad am y newidiadau yr hoffent hwy eu gweld (canlyniadau maent yn dymuno eu gweld)?
- ✓ Ydych chi wedi trafod rhoi gwybod am bryderon?
- ✓ Ydych chi wedi trafod beth sy'n digwydd ar y cam yma, a pham?

- ✓ Soniwch am ba gamau sy'n cael eu cymryd, a pham.
- ✓ Siaradwch â'r unigolyn am yr hyn sy'n cael ei ddarganfod a'i ddysgu.
- ✓ Siaradwch â'r unigolyn am risgiau.
- ✓ Siaradwch â nhw am gynlluniau i reoli'r risgiau hyn.
- ✓ Siaradwch â nhw i weld a yw'r newidiadau maent eisiau eu gweld wedi cael eu gwneud ai peidio.

- ✓ Siaradwch â'r unigolyn i weld a yw bywyd yn well iddyn nhw rŵan.
- ✓ Trafodwch a oes angen unrhyw gamau pellach gyda nhw.
- ✓ Siaradwch â'r unigolyn am gymorth a chynrychiolaeth os ydynt angen neu'n gofyn am hynny.
- ✓ Siaradwch â nhw am beth y gallent ei wneud os ydynt yn anfodlon â phenderfyniadau neu gynnydd.

Mae grwpiau dinasyddion hefyd wedi egluro sut y dylai'r profiad o ddiogelu deimlo; a pha ganlyniadau y byddent fel arfer yn gobeithio allai gael eu cyflawni ar eu cyfer:

- ✓ Bod yn hyderus bod unrhyw bryderon am eu diogelwch a'u lles wedi'u cymryd o ddifrif, a gwybod gyda phwy y gallent sôn am bryderon yn y dyfodol.
- ✓ Rhywun wedi gofyn iddynt beth hoffent hwy ei weld yn digwydd, a pha newidiadau yr hoffent eu gweld.
- ✓ Wedi cael y cymorth maent ei angen i fynegi eu barn a gwneud penderfyniadau.
- ✓ Maent yn gwybod bod eu dymuniadau a'u safbwyntiau nhw wedi cael eu hystyried.
- ✓ Wedi cael sgwrs ynglŷn â beth sy'n digwydd ar bob cam a pham.
- ✓ Rydw i'n gwybod bod pobl wedi ceisio cyflawni'r newidiadau roeddwn i eu heisiau ac wedi egluro pan nad oedd hynny'n bosib'.